# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu | Dyddiad: | 27 Chwefror 2020 |
| | | Rhif Union: | 01824 712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 4 MAWRTH 2020** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, Y RHYL**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 9 - 16)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2019 (copi'n amgaeedig).

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o’r cyfarfod wrth drafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 12 ac 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

**5 ADNEWYDDU CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 541292** (Tudalennau 17 - 26)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio, Diogelu’r Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi wedi’i amgáu) yn gofyn i aelodau benderfynu ar adnewyddu cais gan Ymgeisydd Rhif 541292.

**6 ADNEWYDDU CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 543310** (Tudalennau 27 - 30)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio, Diogelu’r Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi wedi’i amgáu) yn gofyn i aelodau benderfynu ar adnewyddu cais gan Ymgeisydd Rhif 543310.

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O’R CYFARFOD**

**7 POLISI/AMODAU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT** (Tudalennau 31 - 36)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi wedi'i amgáu) yn cynnig nifer o ddiwygiadau i’r Polisi/Amodau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol cyn cymeradwyo.

**8 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR WAITH YR ADAIN DRWYDDEDU YN 2019** (Tudalennau 37 - 42)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi wedi’i amgáu), yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar waith yr Adain Drwyddedu yn ystod 2019.

**9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2020/21** (Tudalennau 43 - 46)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi wedi’i amgáu) yn cyflwyno rhaglen gwaith i’r dyfodol y pwyllgor i’w chymeradwyo.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Carson Irving (Cadeirydd)
Brian Jones (Is-Gadeirydd)

Joan Butterfield
Alan James
Barry Mellor
Melvyn Mile
Merfyn Parry
Arwel Roberts
Peter Scott
Rhys Thomas
Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR TRWYDDEDU**
**GWEITHDREFN ER MWYN PENDERFYNU AR GEISIADAU AM DRWYDDEDAU GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT AC ADOLYGU GYRWYR TRWYDDEDIG PRESENNOL**

| CAM | DISGRIFIAD |
|---|---|
| 1. | Dylai’r Cadeirydd groesawu a chyflwyno’r ymgeisydd/deilydd y drwydded i bawb sy'n bresennol. |
| 2. | Dylai’r Cyfreithiwr ofyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i gadarnhau ei fod/bod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau’r Pwyllgor. Os yw’r ymgeisydd yn ateb yn gadarnhaol, dylid symud ymlaen at gam 4. |
| 3. | Pe digwydd i’r ymgeisydd/deilydd y drwydded ddweud nad yw wedi derbyn yr adroddiad, yna dylid cyfarch y mater yn awr. Gallai'r Aelodau fod eisiau ystyried gohirio’r mater, am gyfnod byr, er mwyn i’r ymgeisydd/deilydd y drwydded gael cyfle i ddarllen yr adroddiad. |
| 4. | Dylai Pennaeth Cynllunio a Diogelu’r Cyhoedd (neu gynrychiolydd ar ei ran) gyflwyno’r cais/adolygiad yn fras |
| 5. | Gofynnir i’r ymgeisydd/deilydd y drwydded gyflwyno ei achos/hachos<br><br>Gall yr ymgeisydd/deilydd y drwydded alw unrhyw dyst y mae’n eu dewis i gefnogi ei gais/chais, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i’r Swyddogion Trwyddedu ynglŷn â hynny. |
| 6. | Gall Aelodau’r Pwyllgor holi’r ymgeisydd/deilydd y drwydded ac /neu ei dystion ei thystion. |
| 7. | Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Gorfodaeth Trwyddedu/Cymunedol, Tîm Cyswllt Cyntaf (y Gwasanaethau Cymdeithasol), Cludiant Ysgolion.) |
| 8. | Gall Aelodau’r Pwyllgor ac yna’r ymgeisydd/deilydd y drwydded ofyn cwestiynau i’r swyddogion technegol |
| 9. | Gwahoddir yr ymgeisydd/deilydd y drwydded i gyflwyno sylwadau i gloi, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. |
| 10. | Gofynnir i’r canlynol adael y cyfarfod tra trafodir y cais/yr adolygiad gan yr Aelodau - yr ymgeisydd/deilydd y drwydded, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol.<br><br>DS yr unig rai a ddylai fod yn weddill yw – Aelodau’r Pwyllgor, cyfieithydd, cynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a’r sawl sy’n cymryd y cofnodion. |

| | |
|---|---|
| 11. | Dylai aelodau'r pwyllgor roi ystyriaeth i'r cais/adolygiad gan roi cyfrif am y dystiolaeth a glywyd. |
| 12. | Pe bai'n angenrheidiol i Aelodau'r Pwyllgor alw unrhyw barti yn eu holau i'w holi neu i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth neu egluro rhywbeth, gwahoddir pawb a fydd wedi ymneilltuo o'r cyfarfod yn eu holau. Wedi i'r cwestiwn (cwestiynau) gael eu hateb gofynnir i bob trydydd parti ymneilltuo unwaith eto er mwyn i'r Aelodau gael ystyried y dystiolaeth i gyd. |
| 13. | Pan fo'r Aelodau wedi dod i benderfyniad, gelwir yr holl bartïon yn eu holau a chaiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded wybod beth yw penderfyniad yr Aelodau gan y Cadeirydd. |
| 14. | Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded o'r penderfyniad y daethpwyd iddo. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw amodau neu gosbau sydd wedi eu gosod. Os oes angen, dylai Cyfreithiwr y Cyngor gyflwyno eglurhad pellach ynglŷn â'r penderfyniad a'i oblygiadau i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded. |
| 15. | Os mai'r penderfyniad yw gwrthod neu os oes penderfyniad i atal neu ddirymu, dylai Cyfreithiwr y Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded am yr hawl i apelio i Lys Ynadon (bydd y llythyr penderfyniad hefyd yn cynnwys y manylion hyn). |
| 16. | Ar gyfer gyrrwr sydd eisoes wedi ei drwyddedu (a bod y drwydded wedi ei rhoi gan Sir Ddinbych), a bod penderfyniad y Pwyllgor yn ymwneud ag atal neu ddirymu'r drwydded bresennol, gall yr Aelodau wneud hynny naill ai o dan:<br><br>1. Adran 61 (2A) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.<br>2. Adran 61 (2B) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Daw'r penderfyniad hwn i rym YN SYTH ac ni ellir ei ddefnyddio ond pan fo'r sail dros atal/dirymu yn fater sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd.<br><br>Bydd y Cyfreithiwr yn esbonio goblygiadau'r penderfyniad wrth ddeilydd y drwydded. |
| 17. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'r ymarferol bosibl. |
| 18. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei wahodd/gwahodd i drafod unrhyw fater y mae'n ansicr yn ei gylch gyda Swyddogion Trwyddedu yn dilyn y Pwyllgor. |

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2019 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr: Joan Butterfield, Hugh Irving (Cadeirydd), Alan James, Brian Jones (Is-Gadeirydd), Barry Mellor, Melvyn Mile, Arwel Roberts, Peter Scott a Huw Williams

**Arsylwr –** y Cynghorydd Meirick Davies

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfreithiwr (AL), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Swyddog Trwyddedu (NJ), Rheolwr Perfformiad Fflyd (CB) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## PWYNT SYLW

Dywedodd y Cadeirydd mai hwn fyddai cyfarfod olaf Alison Lessels, Cynghorwr Cyfreithiol y Pwyllgor Trwyddedu, a mynegodd werthfawrogiad y Pwyllgor o'i chyngor gwerthfawr a'i gwasanaeth yn ystod ei chyfnod gyda'r Cyngor a dymuno'n dda iddi ar gyfer y dyfodol.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Merfyn Parry a Rhys Thomas.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2019.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2019 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.*

## 5 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I FFIOEDD A THALIADAU TRWYDDEDU TACSI

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod Y Cyhoedd adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) yn ceisio cymeradwyaeth yr aelodau o'r ffioedd a'r taliadau arfaethedig yn ymwneud â'r drefn trwyddedu tacsi.

Gallai'r Cyngor godi tâl am drwyddedau mewn perthynas â thrwyddedau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat i dalu costau'n ymwneud â gweinyddu, archwilio, rheoli a goruchwylio. Nid oedd modd cynnwys costau gorfodi ac nid oedd modd gwneud elw. O ganlyniad, dyfeisiwyd methodoleg ffioedd a thaliadau i alluogi adolygiad manwl o ffioedd a thaliadau yn unol â'r broses drwyddedu berthnasol. Byddai unrhyw newid i'r ffioedd a'r taliadau yn destun hysbysiad cyhoeddus a byddai unrhyw wrthwynebiad yn cael ei gyflwyno ger bron y pwyllgor. Os na fyddai unrhyw wrthwynebiad, byddai'r ffioedd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020. Nodwyd mai'r tro diwethaf y cynyddwyd y ffioedd a'r taliadau oedd ym mis Ebrill 2018 er fod ffioedd cerbydau wedi aros yr un peth am 11 o flynyddoedd.

Wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau, eglurwyd bod y swyddogion yn cynnal adolygiad blynyddol o ffioedd a thaliadau ac, er eglurder, roedd y tabl o ffioedd arfaethedig yn cynnwys ffioedd o fewn y drefn drwyddedu yr oedd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn gyfrifol amdanynt a'r ffioedd yr oedd angen cymeradwyaeth yr aelodau. Roedd y Pennaeth Gwasanaeth wedi cadarnhau ei fod yn cefnogi'r ffioedd a'r taliadau fel y cynigiwyd. Wrth nodi gostyngiad o ran rhai o'r ffioedd, dywedodd y swyddogion eu bod wedi llwyddo i wneud arbedion ariannol drwy arbedion o fewn y broses.

***PENDERFYNWYD** y byddai aelodau'n -*

*(a) cymeradwyo'r ffioedd a'r taliadau a fanylir arnynt yn Atodiad A yr adroddiad;*

*(b) awdurdodi swyddogion i gyhoeddi'r newidiadau i'r ffioedd Trwyddedu Tacsi mewn papur newydd lleol ar gyfer yr ymgynghoriad angenrheidiol, ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiad, byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020, a*

*(c) lle derbynnir unrhyw wrthwynebiadau, gofyn i'r Pwyllgor Trwyddedu ystyried y gwrthwynebiadau hynny yn ei gyfarfod nesaf gyda'r bwriad o weithredu (gyda neu heb addasiad) dim hwyrach nag 1 Ebrill 2020.*

**6 ADOLYGU'R BROSES GORSAFOEDD PROFI CYMERADWY PRESENNOL**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ( a gylchredwyd ymlaen llaw) yn ceisio adolygiad yr aelodau o'r broses bresennol i enwebu gorsafoedd profi cymeradwy i gynnal profion cydymffurfio ar gerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn y sir.

Roedd gan Sir Ddinbych 8 gorsaf brofi wedi'u henwebu ar draws y Sir, 5 yn y Gogledd (yn cynnwys Canolfan Rheoli Fflyd y Sir ym Modelwyddan) a 3 yn y De, yr oedd y Gwasanaeth Fflyd yn eu cymeradwyo bob blwyddyn. Esboniodd y Swyddogion y rhesymeg y tu ôl i'r adolygiad o ystyried y pryderon y gallai'r amrywiad o ran cost y ffioedd a godir gan garejys unigol am brofion cydymffurfio a phrisiau cystadleuol fod yn gysylltiedig â lleihad yn ansawdd y prawf, ynghyd â phryderon nad oedd y broses gymeradwy ar gyfer gorsafoedd profi trwyddedig yn cael ei dilyn yn llawn gan arwain at anghyfartaledd o ran safon y profion a oedd yn cael eu cynnal. Roedd pryder hefyd ynghylch nifer ac amlder y profion a oedd yn cael eu cynnal gan rai garejys a oedd yn arwain at ddiffyg cysondeb ar draws y broses profi gyfredol. O ganlyniad roedd swyddogion wedi ystyried nifer o

ddewisiadau i fynd i'r afael â'r materion hynny ac roedd manteision ac anfanteision pob un wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Roedd y dewisiadau canlynol wedi'u cyflwyno i'w hadolygu -

- dim newid i'r gorsafoedd profi awdurdodedig cyfredol
- gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan garejys MOT ar gyfer Cytundeb Lefel Gwasanaeth penodol
- lleihau'r nifer o orsafoedd profi awdurdodedig yn y sir
- symud i brofi cydymffurfiaeth yn fewnol

O ran yr arfer o fewn awdurdodau cyffiniol, dywedodd y swyddogion fod dau awdurdod lleol arall yng Ngogledd Cymru yn cynnal profion mewnol yn unig, yn ogystal ag 11 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Bu i'r swyddogion argymell cynnal profion mewnol fel y dewis a ffefrir yn amodol ar adolygiad ac ymgynghoriad. Os nad oedd yr aelodau yn cefnogi profi mewnol, argymhellwyd cynnal adolygiad o'r broses bresennol.

Ystyriodd yr aelodau rinweddau'r dewisiadau a gyflwynwyd gyda'r bwriad o ddarparu gwell cysondeb a sicrhau gwelliant pellach o ran ansawdd y profion a safonau cerbydau. Mynegwyd pryder hefyd bod y drefn bresennol yn caniatáu i gwmni tacsi a oedd yn berchen ar orsaf brofi enwebedig ymgymryd â phrofion ar eu cerbydau eu hunain ac fe ystyriwyd hyn achos o wrthdaro buddiannau. Byddai'r dewis o brofion mewnol yn mynd i'r afael â'r mater hwn ac yn sicrhau profion annibynnol a chyson o safon benodol.

Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r broses bresennol ynghyd ag ymarferoldeb dull mewnol a phroblemau o ran capasiti. Mewn ymateb, darparodd y Rheolwr Perfformiad Fflyd rhywfaint o wybodaeth gefndir i'r sefyllfa bresennol, gan ddweud bod Sir Ddinbych wedi mabwysiadu'r broses ar gyfer enwebu gorsafoedd profi hen awdurdodau yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996. O ystyried yr angen i wella safonau a chysondeb ac mai'r ystyriaeth bwysicaf oedd diogelwch y cyhoedd, ystyriwyd mai dull mewnol oedd y dewis gorau. Roedd capasiti o fewn y Gwasanaethau Fflyd i ymgymryd â phrofion awdurdodedig yr holl gerbydau trwyddedig o fewn y sir yn y Ganolfan Rheoli Fflyd ym Modelwyddan a oedd ar hyn o bryd yn cynnal oddeutu 30- 40% o'r holl brofion cydymffurfio gydag oddeutu 80% o'r holl gerbydau trwyddedig wedi'u lleoli yng ngogledd y sir. Roedd y Ganolfan Rheoli Fflyd yn gweithredu system trefnu apwyntiadau a oedd ar agor tan 9.00 p.m. Ni fyddai unrhyw fudd ariannol i'r Gwasanaethau Fflyd o ganlyniad i symud i brofion mewnol, o ystyried bod y prawf cydymffurfio yn cymryd peth amser ac nad oedd yn cael ei ystyried yn broffidiol. Holodd y Cynghorydd Joan Butterfield am yr effaith bosibl ar amddifadedd ac a fyddai swyddi yn dod i ben yn y gorsafoedd profi presennol o ganlyniad y newid i brofion mewnol. Darparwyd sicrwydd bod y golled i orsafoedd profi enwebedig yn ymwneud â phrofion cydymffurfiaeth a'r ffi ar gyfer y prawf hwnnw yn unig a oedd yn cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn ar gerbydau trwyddedig – ni fyddai hyn yn effeithio ar weithdrefnau cynnal a chadw a gwaith atgyweirio a byddai holl gyfleoedd gwaith eraill y garejys yn parhau.

Cytunodd y Pwyllgor Trwyddedu y byddai modd magu hyder drwy ddull mewnol a fyddai'n darparu lefel uchel a chyson o ran safonau cerbydau er budd y cyhoedd

sy'n teithio a sicrhau diogelwch y cyhoedd. Ar ôl adolygu'r gwerthusiad dewisiadau, roedd yr aelodau'n gefnogol o ddull mewnol yn amodol ar adolygiad pellach ac ymgynghoriad -

***PENDERFYNWYD*** *edrych ar broses profi mewnol fel dewis a ffafrir ond yn amodol ar adolygiad ac ymgynghoriad pellach gyda'r holl bartïon perthnasol.*

**7 ADOLYGIAD O BOLISI A GWEITHDREFN PWYNTIAU COSB**

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod Y Cyhoedd adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) a oedd yn ceisio cefnogaeth aelodau i gael gwared ar y broses Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb.

Cymeradwywyd y broses Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb gan y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Medi 2014 (diwygiwyd y broses ymhellach yn 2015 a 2016) a manylwyd sut yr oedd y Cyngor yn ymdrin â rhai achosion o dorri amodau neu ddeddfwriaeth mewn perthynas â thrwyddedu tacsis drwy ddyrannu gwerth pwyntiau ar gyfer achosion o dorri amodau. Bu i gasgliad o 20 pwynt mewn dwy flynedd arwain at uwchgyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu gyda chosb unigol o 20 pwynt yn arwain at gamau pellach i'w pennu gan Bennaeth y Gwasanaeth mewn ymgynghoriad â Chadeirydd neu Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu. Roedd y cynllun yn caniatáu proses apêl 10 diwrnod waeth beth oedd y lefel o bwyntiau neu ddigwyddiadau. Roedd y Pwyllgor Trwyddedu hefyd wedi rhoi pwerau dirprwyedig i swyddogion er mwyn iddynt allu dirymu neu atal (dros dro) trwyddedau gweithredwr, cerbydau a gyrwyr mewn rhai amgylchiadau.

Esboniodd y swyddogion fod y broses wedi arwain at ganlyniadau anfwriadol i'r graddau ag oedi camau gweithredu priodol, gan gynnwys atal dros dro/ dirymu, gan nad oedd yr amserlen ar gyfer apelio a rhoi pwyntiau yn caniatáu disgresiwn neu wyriad yn hawdd lle gallai amgylchiadau ei ganiatáu. Darparwyd enghreifftiau o fân achosion ac achosion perthnasol i ddangos yr amgylchiadau hynny a achoswyd oedi diangen oherwydd y lefel o fiwrocratiaeth o fewn y broses nad oedd ychwaith yn caniatáu ar gyfer disgresiwn swyddogion proffesiynol yn yr amgylchiadau hynny, yn enwedig gyda thoriadau cyson o'r un drosedd neu lle bo'r uchafswm o 20 o bwyntiau wedi'i gyrraedd.

Er bod cefnogaeth gyffredinol gan yr aelodau i leihau biwrocratiaeth a symleiddio'r broses i'w gwneud yn fwy effeithiol, roedd rhai amheuon o ran y broses apelio a rôl ostyngol y Pwyllgor Trwyddedu yn hynny o beth. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod cyflwyno materion penodol yn uniongyrchol ger bron y Pwyllgor Trwyddedu yn achosi oedi di-angen mewn rhai achosion ac y byddai cael gwared ar y broses Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb ac yn hytrach dibynnu swyddogion hyfforddedig proffesiynol yn gwneud y broses yn unol ag arferion gwasanaethau rheoleiddio eraill o fewn yr awdurdod a byddai'n caniatáu camau gweithredu amserol. Nododd yr aelodau hefyd nad oedd nifer sylweddol o ddigwyddiadau wedi'u nodi ar gyfer pwyntiau a bod cronfeydd data yn caniatáu ar gyfer cofnodi rhybuddion a chyngor i'w defnyddio wrth ystyried camau gweithredu priodol lle bo'r angen.

O ganlyniad, cytunodd yr aelodau i gefnogi cael gwared â'r broses Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb ond gofynnwyd bod adroddiad yn cael ei lunio yn y dyfodol ar effaith hynny a'r effeithiolrwydd cymharol rhwng y ddwy system.

***PENDERFYNWYD** y byddai aelodau'n -*

*(a) cefnogi cael gwared â'r broses Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb ac*

*(b) y byddai swyddogion yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu ym mis Mawrth 2021 drwy eu Hadroddiad Blynyddol, i drafod ffurf gymharol yr effeithiolrwydd rhwng y ddwy system.*

## 8 POLISI ARFAETHEDIG CASGLIADAU DRWS I DDRWS

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) yn cyflwyno'r Polisi Casgliadau Drws i Ddrws arfaethedig ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol cyn ei gymeradwyo.

Esboniodd y Swyddogion nad oedd gan y Cyngor bolisi clir a manwl i ystyried ceisiadau ar gyfer casgliadau drws i ddrws a cheisiwyd cymeradwyaeth o'r polisi drafft i sicrhau bod yr holl bartïon yn ymwybodol o'r gofynion a'r broses a fyddai'n sicrhau bod y Cyngor yn gwneud penderfyniadau cyson a thryloyw. Darparwyd rhywfaint o wybodaeth gefndir o ran y gofynion deddfwriaethol a'r broses sydd rhaid ei dilyn a nodwyd, er bod trwyddedau yn cael eu cyflwyno gan y Cyngor ar y cyfan, roedd Gorchmynion 'Eithriad Cenedlaethol' ar gael i elusennau a oedd yn dymuno cynnal nifer uchel o gasgliadau cydamserol ar draws y wlad a oedd yn cael eu cyflwyno gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Yr arfer bresennol oedd rhoi trwyddedau i sefydliadau heb Orchmynion Eithriad y Swyddfa Gartref cyn belled â nad oedd casgliadau o'r fath yn gorgyffwrdd â chasgliadau eraill a bod cymdeithasau yn cael eu cyfyngu i un casgliad o fewn 12 mis. Nod y dull hwn osgoi gorlenwi'r ardal â chasglwyr o elusennau gwahanol.

O ystyried y byddai'r polisi arfaethedig yn cynnwys pob agwedd o'r broses a gofynion ac nid oedd newid sylweddol i'r arfer bresennol, argymhellodd y swyddogion bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda sefydliadau elusennol a oedd wedi gwneud cais ac wedi casglu o fewn y sir yn y 12 mis diwethaf yn unig, a bod unrhyw wrthwynebiad yn cael ei gyflwyno ger bron y pwyllgor. Os na fyddai unrhyw wrthwynebiad yn dod i law, bydda'r polisi yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020. Wrth ymateb i gwestiynau, bu i'r swyddogion -

- ddweud bod Gorchmynion Eithriad y Swyddfa Gartref yn cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU i sefydliadau elusennol yng Nghymru a Lloegr.
- esbonio'r amgylchiadau lle byddai'n rhaid cael trwydded wrth gasglu at ddiben elusennol drwy ymweliadau o ddrws i ddrws.
- cadarnhau y byddai trwyddedau'n cael eu caniatáu gan y Cyngor mewn achosion lle nad oedd y Swyddfa Gartref wedi cyflwyno Tystysgrif Eithrio ac yr oedd y cyrff elusennol yn cwrdd â'r darpariaethau deddfwriaethol a gofynion dogfen bolisi'r Cyngor – nid oedd ffi yn cael ei chodi am drwyddedau Casgliadau Drws i Ddrws a oedd yn cael eu cyflwyno gan y Cyngor.

- esbonio nad oedd y gofynion deddfwriaethol wedi newid ac nad oedd newid arfaethedig i arfer bresennol y Cyngor, ac
- os oedd yr aelodau o blaid cefnogi’r polisi, byddai’r swyddogion polisi yn cynghori’r Pwyllgor Trwyddedu pe na bai unrhyw wrthwynebiad mewn ymateb i’r ymgynghoriad ffurfiol ar y ddogfen a fyddai wedyn yn dod i rym ym mis Ebrill 2020.

-Ar ôl ystyriaeth briodol -

***PENDERFYNWYD –***

(a) *y byddai’r Polisi Casgliadau Drws i Ddrws (Atodiad A yr adroddiad) yn cael ei gefnogi a bod swyddogion yn cymeradwyo cychwyn ymgynghoriad ffurfiol gyda chyrff elusennol sydd wedi gwneud cais ac wedi casglu o fewn y sir yn y 12 mis diwethaf, ac*

(b) *yn dilyn ymgynghoriad, bod y swyddogion yn adrodd unrhyw wrthwynebiadau a chymeradwyaeth i’r Pwyllgor Trwyddedu o’r polisi newydd, neu os nad oed unrhyw ymatebion yn dod i law, i gymeradwyo mabwysiadu'r Polisi Casgliadau Drws i Ddrws o 1 Ebrill 2020 ymlaen.*

**9 POLISI CASGLIADAU STRYD ARFAETHEDIG**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) yn cyflwyno’r Polisi Casgliadau Stryd arfaethedig ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol cyn ei gymeradwyo.

Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd gan y Cyngor bolisi clir a manwl i ystyried ceisiadau ar gyfer casgliadau stryd a cheisiwyd cymeradwyaeth o’r polisi drafft i sicrhau bod yr holl bartïon yn ymwybodol o’r gofynion a’r broses a fyddai’n sicrhau bod y Cyngor yn gwneud penderfyniadau cyson a thryloyw. Roedd gan y Cyngor rym i drwyddedu casgliadau a wnaed ar unrhyw stryd neu mewn unrhyw fan cyhoeddus at ddibenion elusennol neu arall ac roedd y Cyngor hefyd wedi llunio Rheoliadau i reoli casgliadau stryd yn y sir. Yr arfer bresennol oedd caniatáu un casgliad stryd yr wythnos mewn perthynas â phob tref / cymuned a gallai cymdeithasau ond cynnal un casgliad ym mhob tref / cymuned o fewn cyfnod o ddeuddeg mis. Nod y dull hwn osgoi gorlenwi’r ardal â chasglwyr o elusennau gwahanol.

O ystyried y byddai’r polisi arfaethedig yn cynnwys pob agwedd o’r broses a gofynion ac nid oedd newid sylweddol i’r arfer bresennol, argymhellodd y swyddogion bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda sefydliadau elusennol a oedd wedi gwneud cais ac wedi casglu o fewn y sir yn y 12 mis diwethaf yn unig, a bod unrhyw wrthwynebiad yn cael ei gyflwyno ger bron y pwyllgor. Os na fyddai unrhyw wrthwynebiad, byddai’r polisi yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, eglurwyd bod cyntedd archfarchnad y tu mewn i’r adeilad yn cael ei ystyried o dan reolaeth y siop ac felly ni fyddai’n rhaid cael trwydded, fodd bynnag, pe bai casgliad yn cael eu gynnal y tu allan i’r siop, megis yn y maes parcio, byddai’n rhaid cael trwydded gan fod gan y cyhoedd fynediad rydd i’r ardal honno. Os na fyddai unrhyw wrthwynebiad yn dod i law mewn ymateb

i'r ymgynghori ffurfiol, byddai swyddogion yn cynghori'r Pwyllgor Trwyddedu yn unol â hynny.

***PENDERFYNWYD –***

(a) *y byddai'r Polisi Casgliadau Stryd arfaethedig (Atodiad A yr adroddiad) yn cael ei gefnogi a bod swyddogion yn cymeradwyo cychwyn ymgynghoriad ffurfiol gyda chyrff elusennol sydd wedi gwneud cais ac wedi casglu o fewn y sir yn y 12 mis diwethaf, ac*

(b) *yn dilyn ymgynghoriad, bod y swyddogion yn adrodd unrhyw wrthwynebiadau a chymeradwyaeth i'r Pwyllgor Trwyddedu o'r polisi newydd, neu os nad oed unrhyw ymatebion yn dod i law, i gymeradwyo mabwysiadu'r Polisi Casgliadau Stryd o 1 Ebrill 2020 ymlaen.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (dosbarthwyd yn flaenorol) ar raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu.

Eglurodd y Swyddog Trwyddedu bod eitemau wedi cael eu hail-drefnu wedi i gyfarfod mis Medi gael ei ganslo ac roedd swyddogion yn gweithio i gynhyrchu rhaglen gwaith i'r dyfodol 12 mis i'w chyflwyno yn y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol arfaethedig fel ag y mae yn yr atodiad i'r adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 10.30 a.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 4 Mawrth 2020 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu)<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706451 |
| **TESTUN:** | Polisi/Amodau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 I ofyn bod yr Aelodau yn ystyried y diwygiadau i Bolisi ac Amodau presennol Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Cymeradwywyd Polisi ac Amodau Presennol Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat gan yr Aelodau yn eu cyfarfod ar 16 Rhagfyr 2016 i'w adolygu bob 3 blynedd.

2.2 Mae'r adroddiad hwn yn nodi rhai diwygiadau i'w hystyried

**3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD**

3.1 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847.

4. **GWYBODAETH GEFNDIR**

4.1 I atgoffa'r Aelodau, cynhaliwyd adolygiad llawn o Bolisi ac Amodau Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat yn 2015 ac yn dilyn ymgynghoriad helaeth, daeth i rym ym mis Gorffennaf 2017.

4.2 Mae'r swyddogion wedi adolygu'r polisi yn unol â'r gofyniad i wneud hynny bob tair blynedd ac wedi cynnig rhai diwygiadau ynghyd â'r rhesymau dros hynny sydd wedi'u nodi yn Atodiad A er gwybodaeth i'r Aelodau.

4.3 Mae'r swyddogion wedi awgrymu'r diwygiadau hyn, i adlewyrchu'r newid mewn gweithdrefnau gweithredu h.y. tynnu'r system pwyntiau cosb, ac i egluro'r amodau presennol.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Bod yr Aelodau'n ystyried y wybodaeth a nodwyd yn yr adroddiad hwn ac yn awdurdodi swyddogion i ymgynghori ar y diwygiadau arfaethedig, ac os na chyflwynir unrhyw wrthwynebiadau, byddant yn dod i rym ar 1 Mehefin 2020.

5.2 Os derbynnir unrhyw wrthwynebiadau, bydd Swyddogion yn adrodd yn ôl i'r Aelodau yn eu cyfarfod nesaf ym mis Mehefin i ystyried y gwrthwynebiadau gyda'r nod o'u gweithredu ar 1 Gorffennaf.

**Diwygiadau Arfaethedig i Bolisi Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat**

| Adran | Manylion y Polisi/Cerbyd | Cynnig / Diwygiad | Cyfiawnhad ar gyfer diwygio |
|---|---|---|---|
| 2.6.3<br>Arwyddion / Hysbysebu / Cynllun Lliwiau (Hurio Preifat) | Bydd Cerbydau Hurio Preifat yn arddangos arwyddion drws, a roddir gan y Cygnor a'u gosod fel y nodir yn Amodau'r Drwydded. | Ychwanegu "Ni ddylid defnyddio arwyddion drws magnetig at y diben hwn". | Bu achosion lle bo arwyddion drws magnetig wedi eu dwyn neu wedi syrthio oddi ar Gerbydau Hurio Preifat, gan olygu bod posibilrwydd y bu'n rhaid i'r cerbyd weithredu heb yr arwyddion cywir nes y gellir cael rhai newydd. Mae'r gallu i dynnu a disodli arwyddion magnetig yn hawdd yn cyflwyno perygl y gallai arwyddion sydd wedi'u dwyn gael eu defnyddio'n anghyfreithlon ar gerbydau heb drwydded. |
| 2.17.4<br>Eithriad Plât | Bydd pob cais ar gyfer eithriad yn cael ei drin ar ei rinweddau ei hun i'w ystyried yn y Pwyllgor Trwyddedu. | Tynnu a disodli gyda "Bydd pob cais am eithriad yn cael ei ystyried gan Swyddogion yn unol â Pholisi Eithriad Platiau Hurio Preifat. | Er mwyn caniatáu i swyddogion ystyried pob cais am eithriad ar ei rinweddau ei hun yn unol â chyflwyniad Polisi Eithriad Hurio Preifat a gymeradwywyd gan yr Aelodau ar 5 Mawrth 2019 ac sy'n weithredol o'r 1 Mehefin 2019. |
| 2.19.5 a 2.19.7 /5.11.5 a 5.11.7<br>Camau disgyblu | Bydd mân droseddau nad ydynt yn cyflwyno risg i'r cyhoedd neu nad ydynt yn peri cwestiynau am addasrwydd deilydd y drwydded yn cael eu trin yn anffurfiol o dan gynllun rhybudd pwyntiau cosb y Cyngor. Oherwydd amlder neu natur y mân droseddau efallai na fydd y cynllun rhybudd pwyntiau cosb yn briodol a bod angen cosb arall, megis gwaharddiad neu ddirymu. | Tynnu a diwygio paragraffau 2.19.6 a 5.11.6 i nodi "Bydd camau priodol yn cael eu cymryd mewn perthynas â'r holl drwyddedau (cerbyd, gyrrwr neu weithredwr), gan gynnwys gwahardd neu ddirymu lle bo'n berthnasol, gan y swyddogion dan arweiniad gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (gan gynnwys adrannau 60 a 68), Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 (gan gynnwys adran 50), Polisi Gorfodi Cynllunio a Gwarchod y | Penderfynodd yr Aelodau y dylid tynnu'r Cynllun Pwyntiau Cosb a gweithredu Gweithdrefn ar gyfer Dirymu neu Wahardd Trwydded Hurio Preifat neu Gerbyd Hacni yng nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2019. Bydd swyddogion yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu ym mis Mawrth 2021 i drafod effeithiolrwydd cymharol y ddwy system. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cyhoedd, a'r Polisi hwn. Os yw'n briodol gallai'r Swyddogion gyfeirio unrhyw fater i'w ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu i benderfynu ar gamau priodol. Yn yr un modd, gall y Pwyllgor Trwyddedu ofyn bod unrhyw fater yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ystyried". | |
| 2.20/ 5.12<br>Cynllun Pwyntiau Cosb | Cynllun Pwyntiau Cosb | Tynnu'r adran. Symud paragraffau 2.20.1 a 2.20.2 / 5.12.1 a 5.12.2 i ffurfio paragraffau cyntaf Adran 2.19 a 5.11 fel y bo'n briodol ac ail-enwi adrannau "Camau Rheoleiddio a Disgyblu". | Mae'r adran hon yn cyfeirio at Gynllun Pwyntiau Cosb ac mae'r swyddogion o'r farn y dylid cadw 2.20.1/5.12.1 a 2.20.2/5.12.2 i gynorthwyo gyda gorfodi. |
| 3.14.1b/6.8.1b<br>Cyfleusterau ar gyfer Defnyddwyr Cadeiriau Olwyn | Bydd ramp neu rampiau ar gael bob amser i lwytho cadair olwyn a'r teithiwr i'w defnyddio trwy ddrws cefn yr ochr agosaf. Bydd dyfais cloi digonol yn cael ei osod i sicrhau nad yw ramp(iau) yn llithro neu'n gogwyddo wrth eu defnyddio. Bydd darpariaethau i storio'r rampiau yn ddiogel yn y cerbyd pan nad ydynt yn cael eu defnyddio | Tynnu "trwy ddrws cefn yr ochr agosaf". | Bydd nifer o Gerbydau newydd sy'n Hygyrch i Gadeiriau Olwyn yn caniatáu sawl pwynt mynediad. Mae gorfodi defnyddio drysau cefn yr ochr agosaf yn unig yn cyfyngu'r math o gerbydau y gellir eu defnyddio ac efallai bydd yn atal cerbydau newydd rhag cael eu cynnwys fel rhan o'r fflyd. |
| 4.14.2/7.16.2<br>Damweiniau | Os bydd trwydded yn cael ei gwahardd oherwydd natur y difrod, bydd y gweithredwr yn mynd â'r cerbyd i'w brofi mewn gorsaf brofi enwebedig a chyflwyno tystysgrif cydymffurfiaeth i'w harchwilio cyn y gellir ailgyflwyno'r drwydded. | Tynnu a disodli gydag "os bydd trwydded yn cael ei gwahardd oherwydd natur y difrod, bydd y gweithredwr, ar gost eu hunain, yn mynd â'r cerbyd i'w brofi yng Nghanolfan Cynnal a Chadw Cerbydau a Rheoli Fflyd CSDd. Wedi hynny, byddant yn cyflwyno'r | Bydd y diwygiad yn sicrhau bod gweithdrefn yn ei lle i sicrhau bod cerbydau sydd wedi'u gwahardd yn cael eu harchwilio a'u hail-gymeradwyo gan swyddogion wedi hynny. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Dystysgrif Cydymffurfiaeth i'w harchwilio cyn y gellir ailgyflwyno'r drwydded". | |
| 5.6.3<br>Arwyddion / Hysbysebu / Cynllun Lliwiau (Cerbyd Hacni) | Mae'n rhaid i Gerbyd Hacni sydd wedi'i drwyddedu gan y Cyngor gludo arwydd wedi'i oleuo ar y to. Mae'n rhaid i'r arwydd nodi "Tacsi / Taxi" ac mae'n rhaid iddo fod wedi'i oleuo wrth geisio busnes. | Ychwanegu paragraff newydd "Gellir (mae'n rhaid?) cyflwyno Cerbydau Hacni Newydd i Ganolfan Cynnal a Chadw Cerbydau a Rheoli Fflyd CSDd i'w harchwilio i ddechrau heb arwydd to na mesurydd. Ond, mae'n rhaid gosod y ddau beth a'u harchwilio gan Swyddogion Trwyddedu cyn cyflwyno Trwydded. | Gall darpar drwyddedai gyflwyno cerbyd i'w brofi heb osod arwyddion to na mesuryddion i ddechrau. Bydd hyn yn golygu, os yw'r cerbyd yn methu'r prawf neu nad yw'r cerbyd yn addas, nid ydynt wedi talu am osod yr offer yn ddiangen. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 4 Mawrth 2020 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Rheolwr Busnes Diogelu'r Cyhoedd<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br><br>01824 706066 |
| **TESTUN:** | Y wybodaeth ddiweddaraf am waith yr Adain Drwyddedu yn 2019 |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith y Swyddogion Trwyddedu.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ar waith mewn perthynas â swyddogaethau'r Adain Drwyddedu ac mae'n cynnwys trwyddedau a roddwyd, cwynion a cheisiadau gwasanaeth a dderbyniwyd a gweithgareddau eraill a gwblhawyd yn ystod 2019.

**3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD**

3.1 Does dim angen penderfyniad.

**4. GWYBODAETH GEFNDIR**

4.1 Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n ddwy brif ran, sef materion gweithredol a rheoli.

**5. MATERION A CHANFYDDIADAU – MATERION GWEITHREDOL**

5.1 <u>Alcohol ac Adloniant</u>

5.1.1 Ar hyn o bryd, mae 435 o safleoedd trwyddedig – 102 i yfed ar y safle; 120 i yfed oddi ar y safle; 213 i yfed ar ac oddi ar y safle – a 184 o sefydliadau lluniaeth hwyr y nos.

5.1.2 Roedd 32 o gwynion gan y cyhoedd mewn perthynas â safleoedd trwyddedig ac roedd y rhan fwyaf helaeth o'r rheini'n gysylltiedig â materion a oedd yn ymwneud â niwsans sŵn. Mae'r rhain wedi'u datrys trwy gydweithio â Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd ac mae camau priodol wedi'u cymryd neu gyngor priodol wedi'i roi lle bo angen neu os ydynt yn parhau.

5.1.3 Mae cwynion eraill yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol cyffredinol, gweithgareddau didrwydded a gwerthu i rai dan oed. Mae camau priodol yn neu wedi cael eu cymryd.

5.1.4 Yn ystod y flwyddyn, mae ceisiadau wedi bod ar gyfer:-

- 28 safle newydd
- 36 o drosglwyddiadau trwydded
- 30 o amrywiadau i amodau neu fanylion y drwydded
- 28 amrywiad i Oruchwyliwr Safle Dynodedig
- 374 o hysbysiadau digwyddiadau dros dro
- 61 trwydded bersonol newydd a 25 newid i fanylion trwydded bersonol

5.1.5 Mae wyth ymweliad ar y cyd wedi bod i safleoedd trwyddedig gyda phartneriaid – Heddlu Gogledd Cymru, Swyddogion Gorfodi ar Fewnfudo a thimau eraill Sir Ddinbych, fel Iechyd a Diogelwch, Diogelwch Bwyd a Safonau Masnach.

5.1.6 Mae Swyddogion Trwyddedu'n parhau i gyfarfod yn rheolaidd – o leiaf unwaith bob pythefnos – gyda chydweithwyr o Heddlu Gogledd Cymru i nodi ac ymdrin â materion sy'n dod i'r amlwg yn dilyn yr egwyddorion a nodwyd yn y Datganiad Polisi Trwyddedu e.e. Lefel 1 Ymgysylltu / Lefel 2 Cynlluniau Gweithredu.

5.2 <u>Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat.</u>

5.2.1 Ar hyn o bryd mae:

- 280 Cerbyd Hacni
- 60 Cerbyd Hurio Preifat
- 15 Gweithredwr Cerbyd Hurio Preifat
- 30 Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat
- 305 Gyrrwr y ddau fath o gerbyd

5.2.2 Roedd 44 o gwynion yn ymwneud â thacsis yn ystod y flwyddyn, am faterion a oedd yn cynnwys cerbyd heb ei drwyddedu, parcio anghyfreithlon/cerbyd hurio preifat yn cynnig gwasanaeth ar y pryd, codi gormod o ffi, cam-drin a gyrru diofal. Mae swyddogion yn neu wedi cymryd camau priodol.

5.2.3 Proses weithredol i benderfynu ar geisiadau gyrwyr wedi symud i fod yn geisiadau ar-lein ar gyfer tystysgrifau DBS a gwiriadau ar-lein ar gyfer trwyddedau gyrru'r DVLA. Er bod rhai problemau'n dal i fod, mae'r broses hon yn gweithio'n dda ac yn galluogi'r ymgeisydd i fonitro'r cynnydd a rheoli eu data eu hunain.

5.2.4 Yn ystod y flwyddyn, mae 33 o bobl newydd wedi ymgeisio am drwydded i yrru cerbydau hurio preifat / cerbydau hacni. Tynnwyd dau gais yn ôl gan yr ymgeiswyr a gwrthodwyd pedwar cais, gyda dau o'r rheini'n arwain at apêl i Lys yr Ynadon; un yn llwyddiannus ac un yn aros am y canlyniad. Mewn perthynas â cheisiadau i adnewyddu, gwrthodwyd cais un gyrrwr. Yn ystod y flwyddyn, di-rymwyd trwydded un gyrrwr ac mae'n apêl ar fynd ar hyn o bryd.

5.2.5 Y tu hwnt i brofion cydymffurfio arferol ar gerbydau, cynhaliwyd gwiriadau arbennig ar 102 o gerbydau mewn amryw leoliadau – ysgolion, safleoedd tacsis ac ar ochr y ffordd. O’r rheini, cafodd 16 (15%) hysbysiadau gwahardd dros dro hyd nes bod problemau, yn bennaf yn ymwneud â chyflwr corff y car neu lendid, yn cael eu cywiro.

5.2.6 Roedd gan swyddogion reswm i roi pwyntiau i dri gyrrwr dan y cynllun Pwyntiau Cosb; dau achos yn ymwneud â pharcio / stopio mewn safle tacsis ac un am gyflwr cerbyd.

5.3 <u>Gamblo, Gemau a Loterïau</u>

5.3.1 Mae gwaith sylweddol wedi’i wneud i sicrhau cywirdeb cronfeydd data ar gyfer safleoedd sy’n gysylltiedig â gamblo. Ar hyn o bryd mae:

- 5 Canolfan Gemau i Oedolion
- 3 Canolfan Adloniant i Deuluoedd
- 13 Siop Betio
- 1 Trwydded Gemau Clwb
- 9 Trwydded Peiriant Clwb
- 9 Trwydded Gemau Canolfan Adloniant Ddidrwydded i Deuluoedd
- 7 Trwydded Safle Trwyddedig
- 120 o Loterïau Cofrestredig

5.3.2 Roedd tair cwyn ynglŷn â safleoedd gamblo trwyddedig, ond nid oedd angen unrhyw gamau pellach ar unrhyw un ohonynt.

5.3.3 Adolygwyd a chyhoeddwyd y Datganiad Polisi Gamblo ar 31 Ionawr 2019.

5.3.4 Rhoddodd cynrychiolwyr o’r Comisiwn Gamblo hyfforddiant pwrpasol i weithredu ar lawr gwlad i’r swyddogion, a alluogodd ymweliadau ar y cyd i rai safleoedd gamblo trwyddedig. Ar ben hynny, cynhaliodd y Swyddogion Trwyddedu nifer bach o archwiliadau yn profi a oedd safleoedd yn cydymffurfio â gwrthod mynediad i rai dan oed at beiriannau gemau.

5.4 <u>Masnachu ar y Stryd</u>

5.4.1 Roedd tri chais i fasnachu ar y stryd ac ni chafwyd unrhyw gwynion.

5.4.2 Cynghorir yr Aelodau y bydd yr arfer ar hyn o bryd ar gyfer unrhyw geisiadau newydd yn parhau nes mae polisi wedi’i bennu a’i gymeradwyo trwy’r pwyllgor hwn. Bydd felly yn cael ei ddrafftio a’i gyflwyno gan swyddogion maes o law.

5.5 <u>Casgliadau Elusennau</u>

5.5.1 Bu:

- 23 o drwyddedau ar gyfer casgliadau o dŷ i dŷ
- 25 o drwyddedau ar gyfer casgliadau stryd.

5.5.2 Nid oedd unrhyw gwynion mewn perthynas â chasgliadau stryd i elusennau a oedd yn cael eu rheoleiddio.

5.6 Metel Sgrap

5.6.1 Derbyniwyd ceisiadau ar gyfer:

- 2 Safle Metel Sgrap Trwyddedig
- 4 Casglwr Metel Sgrap Trwyddedig

5.6.2 Ni fu unrhyw gwynion mewn perthynas â materion metel sgrap.

5.7 Ceisiadau Gwasanaeth / Rhyddid Gwybodaeth

5.7.1 Yn ystod y flwyddyn, bu:

- 67 o geisiadau gwasanaeth ar draws yr ystod o swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni gan y Tîm Trwyddedu lle'r oedd cais am wybodaeth neu gyngor ac ati a hynny wedi'i ddarparu, a
- 30 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, yn ymwneud ag ystod o faterion, a oedd wedi cael ymateb priodol.

5.8 Canlyniadau Cyffredinol y Llwyth Gwaith

5.8.1 Yn ystod y flwyddyn, bu:

- 180 o archwiliadau, yn bennaf ynghlwm â cherbydau a safleoedd trwyddedig, a
- 2264 o gamau gweithredu. Mae'r swyddogion yn nodi nad yw camau gweithredu o reidrwydd yn gysylltiedig ag archwiliadau ond maent yn cynnwys rhyngweithio gyda busnesau a'r cyhoedd fel arall, e.e. galwadau ffôn, llythyrau, hysbysiadau, ac ati.

5.9 Cyfathrebu

5.9.1 Mae Swyddogion Trwyddedu'n parhau i gyhoeddi newyddlenni bob hyn a hyn i'r diwydiant tacsis lleol.

5.9.2 Bu gwaith yn y cyfryngau trwy gyhoeddi negeseuon i hyrwyddo menter y Rhuban Gwyn, negeseuon tacsis diogel a rhai cyffredinol trwy wythnos genedlaethol trwyddedu.

5.9.3 Mae nifer o negeseuon o anogaeth wedi bod ar y cyfrifon cyfryngau cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn.

**6. MATERION RHEOLI**

6.1 Polisïau

6.1.1 Mae nifer o bolisïau wedi'u diwygio yn ystod 2019 ac mae'r gwaith hwn yn dal ar fynd. Mae'r Swyddogion wedi drafftio cynllun gwaith diwygiedig i'r dyfodol a byddant yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am hynny ym mhob un o gyfarfodydd y pwyllgor.

6.2 Ffioedd

6.2.1 Ar adeg llunio'r adroddiad, mae'r ffioedd a'r taliadau i weinyddu'r gyfundrefn trwyddedu tacsis mewn cyfnod ymgynghori gyda golwg ar gyflwyno ffioedd newydd o 1 Ebrill 2020 ymlaen.

6.3 Cwynion yn erbyn y gwasanaeth

6.3.1 Nid wnaed unrhyw gwynion ffurfiol yn erbyn y gwasanaeth yn 2019.

6.4 Ystyriaethau Ychwanegol at y Dyfodol ar y Llwyth Gwaith

6.4.1 Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafswm Pris Alcohol) (Cymru) 2018 yn cyflwyno isafswm pris ar gyfer alcohol a gallai effeithio ar argaeledd alcohol rhad mewn archfarchnadoedd a siopau trwydded oddi ar y safle. Daw'r ddeddfwriaeth i rym ar 2 Mawrth 2020 a bydd archwiliadau'n cael eu cynnal yn ystod y misoedd wedyn i sicrhau cydymffurfiaeth.

6.4.2 Mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru, mae Sir Ddinbych yn arwain ar gyflwyno menter "Braf Bob Nos" yn yr ardal. Yn 2020, bydd gwaith yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth ac ennyn cefnogaeth i'r cynllun a'i gyflwyno ar draws Sir Ddinbych ar ôl y lansiad ym mis Mawrth 2021.

6.4.2 Yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar "Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus", mae mwy o waith yn cael ei wneud i ystyried y sylwadau a'r gyfundrefn trwyddedu tacsis yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd swyddogion yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau yn unol â hynny fel y bydd ar gael.

6.4.3 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o nod Llywodraeth Cymru o gael fflyd o fysiau a thacsis/cerbydau hurio preifat nad yw'n gollwng allyriadau erbyn 2028. Rhagwelir y gallai Trwyddedu fod yn rhan o'r weledigaeth hon trwy brosesau trwyddedu tacsis. Efallai y bydd yr Aelodau a swyddogion am ddechrau nodi pa fentrau allai annog deiliaid trwyddedau lleol er mwyn gallu cyrraedd y nod.

6.4.4 Mae swyddogion yn edrych ar gyfleoedd eraill i alluogi proses mwy effeithlon i ymgeiswyr ar gyfer yr amrywiaeth o drwyddedau sy'n cael eu rhoi. Mae hyn yn cynnwys datblygu mwy ar gronfa ddata er mwyn caniatáu cofrestri cyhoeddus a cheisiadau ar-lein a'r potensial i gyflwyno "Prawf Gwybodaeth" electronig ar gyfer ymgeiswyr newydd i fod yn yrwyr tacsis.

6.4.5 Mae swyddogion yn trefnu digwyddiad hyfforddi i Aelodau'r Pwyllgor tua diwedd y flwyddyn. Ar ben hynny, i gefnogi'r Aelodau i ddatblygu, gall y swyddogion fodloni unrhyw gais gan unrhyw Aelod o'r Pwyllgor sydd â diddordeb mewn dilyn Swyddogion wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau.

## 7. ARGYMHELLION

7.1 Bod y Pwyllgor yn:

a. nodi'r adroddiad gweithgarwch ar gyfer eleni, a
b. nodi a gwneud sylwadau ar gynnwys yr adroddiad hwn.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 4 Mawrth 2020 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu)<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706433 |
| **TESTUN:** | Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2020/21 |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Darparu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig 2020/21 i'r Aelodau.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig ynghlwm, yn Atodiad 1, i'r Aelodau ei hystyried a'i chymeradwyo.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Bydd aelodau yn ymwybodol bod Swyddogion, mewn Pwyllgor Trwyddedu blaenorol yn Rhagfyr 2019, wedi nodi y byddent yn drafftio Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 12 mis i'w chyflwyno i Aelodau yn y cyfarfod hwn.

3.2 Wrth ddrafftio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, mae Swyddogion wedi ystyried y polisïau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Trwyddedu a dyddiadau adolygu'r polisïau hynny ynghyd ag unrhyw newid deddfwriaethol posibl a gynigir gan lywodraeth ganolog.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod yr Aelodau yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig, fel y nodwyd yn Atodiad 1.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Atodiad 1**

**Pwyllgor Trwyddedu**

**Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2020/21**

| Dyddiad y Pwyllgor | Adroddiad | Sylw |
|---|---|---|
| **Mehefin 2020** | Adolygu Lleoliadau Profi cymeradwy | Diweddariad ar yr adolygiad |
| | Polisïau Casglu o Dy i Dy a Stryd | Ond yn angenrheidiol os ceir gwrthwynebiad yn dilyn ymgynghori gyda phartïon sydd â diddordeb |
| **Medi 2020** | Hyfforddiant i Aelodau | Hyfforddiant Gorfodol |
| **Rhagfyr 2020** | Adolygiad o bolisi a gweithdrefn Gyrwyr Cerbydau Hacni / Cerbydau Hurio Preifat | Adolygu |
| | Is-ddeddfau Cerbydau Hacni | Cefnogi'r is-ddeddfau enghreifftiol ar gyfer ymgynghoriad gyda phartïon sydd â diddordeb |
| | Adolygu Ffioedd a Thaliadau 2021/22 | Adolygu'r tabl ffioedd sy'n bodoli |
| **Mawrth 2021** | Polisi Dosbarthiad Ffilm arfaethedig | Cymeradwyo |
| | Polisi/Amodau Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat | Cymeradwyaeth yn dilyn adolygu |
| | Yr wybodaeth ddiweddaraf am waith y Tîm Trwyddedu | Diweddariad |
| | Ffioedd a Thaliadau 2021/22 | Ond yn angenrheidiol os ceir gwrthwynebiad yn dilyn ymgynghori gyda phartïon sydd â diddordeb |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag